



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Offer Meddygol – Bwrdd **Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2015-16

Cyhoeddwyd: Hydref 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 357A2016



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Charlotte Owen a gyflawnodd y gwaith.

Cynnwys

Mae gwaith cynnal a chadw offer meddygol o ddydd i ddydd yn cael ei reoli'n rhesymol o dda, a cheir systemau effeithiol sy'n seiliedig ar risg er mwyn blaenoriaethu gwariant cyfalaf. Er hyn, mae trefniadau ar gyfer offer cost isel yn llai clir ac nid oes gan y Bwrdd lechyd restr gyflawn o offer meddygol.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 4

Mae gan y Bwrdd lechyd strwythur clir ar gyfer rheoli offer meddygol, ond nid oes proffil uchel i offer meddygol ac mae goruchwyliaeth gan aelodau annibynnol wedi lleihau 4

Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu trefniadau i reoli risgiau yn ymwneud ag offer meddygol ar lefel weithredol, ond nid yw risgiau strategol bob amser yn cael eu huwchgyfeirio'n gyflym 6

Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio ei gyllideb cyfalaf dewisol yn effeithiol i flaenoriaethu offer meddygol newydd ac i ddisodli hen offer, ond ar gyfer eitemau rhatach nid yw'r trefniadau mor glir ac nid oes un rhestr benodol o'r holl eitemau 7

Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar gyfer cynnal a chadw offer meddygol, ond gallai ei lyfrgell offer meddygol fod yn fwy effeithiol a chael ei safoni ym mhob rhan o'r Bwrdd lechyd, drwy rannu arfer da ledled y safleoedd 8

Argymhellion 8

Atodiadau

Ymateb y rheolwyr 10

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae cyrff iechyd fel arfer yn berchen ar filoedd o eitemau o offer meddygol ac yn eu cynnal a'u cadw. Gall offer meddygol gyflawni nifer o swyddogaethau megis diagnosis, atal, monitro, ymchwiliad a thriniaeth. Mae'n hanfodol felly fod cyrff iechyd yn rheoli eu hoffer meddygol mewn modd sy'n sicrhau diogelwch y cleifion a gofal o ansawdd uchel. Mae offer meddygol, fel y'i diffinnir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn cynnwys pob dyfais feddygol sy'n gysylltiedig â chleifion fel rhan o'u triniaeth a'u gofal yn yr ysbyty, a dyfeisiau meddygol a ddefnyddir ar gyfer dibenion diagnostig a labordy.
- 2 Mae adolygiadau blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi amlygu rhai pryderon yn ymwneud ag offer meddygol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd):
 - amlygodd ein Hasesiad Strwythuredig yn 2012 fod angen i'r Bwrdd Iechyd safoni arferion caffael o ran offer; ac
 - amlygodd ein gwaith yn 2014 ynglŷn â Rheoli Meddyginiaethau Aciwt, byderon yn ymwneud â chael offer allweddol newydd yn lle'r hen offer.
- 3 Hefyd, o ystyried y pwysau sydd ar y gyllideb cyfalaf dewisol o fewn y Bwrdd Iechyd, a lefelau uchel o ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, ceir risg y gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn defnyddio offer sydd wedi dyddio ac nad yw'n cymryd y camau priodol i liniaru'r risg hwn. Mewn ymateb i hyn, cynhaliwyd adolygiad lleol gennym, a oedd yn archwilio dull y Bwrdd Iechyd o reoli offer meddygol ac yn ceisio ateb y cwestiwn: 'a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei offer meddygol yn effeithiol?'

Ein canfyddiadau

- 4 Daethom i'r casgliad bod gwaith cynnal a chadw offer meddygol o ddydd i ddydd yn cael ei reoli yn rhesymol o dda a cheir systemau effeithiol yn seiliedig ar risg ar gyfer blaenoriaethu gwariant cyfalaf. Er hyn, mae trefniadau ar gyfer offer cost isel yn llai clir ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd restr gyflawn o offer meddygol.
- 5 Rhoddir crynodeb o'r prif ganfyddiadau isod.

Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur clir ar gyfer rheoli offer meddygol, ond nid oes proffil uchel i offer meddygol ac mae goruchwyliaeth gan aelodau annibynnol wedi lleihau

- 6 Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth, Therapiau a Gwyddorau Iechyd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros offer meddygol, a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Therapiau a Gwyddorau Iechyd (ADoTHS) sy'n darparu arweinyddiaeth ar lefel cyfarwyddwr. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i wasanaethau aciwt a gwasanaethau wedi'u lleoli yn y gymuned.

- 7 Er bod newidiadau i strwythurau gweithredol yn y Bwrdd Iechyd wedi effeithio ar gynllunio, strategaeth a chyfathrebu lefel uchel, mae'r strwythur newydd hefyd yn darparu cyfle i wella'r trefniadau ar gyfer rheoli offer meddygol.
- 8 Mae'r Grŵp Goruchwyllo Dyfeisiau Meddygol (MDOG), a gadeirir gan yr ADoTHS yn rhan o strwythur clir sydd wedi'i hen sefydlu ac mae'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer dyfeisiau meddygol. Mae llinellau atebolrwydd amlwg i'r grŵp hwn, ac mae'r aelodau yn cynrychioli amrywiaeth eang o aelodau staff o wahanol lefelau. Yr MDOG sy'n goruchwyllo'r Grŵp Cyfalaf ar gyfer Dyfeisiau Meddygol a grwpiau Dyfeisiau Meddygol Ardaloedd Lleol, ac mae'r wybodaeth berthnasol ganddo. Mae tystiolaeth yn dangos bod materion llywodraethu, diogelwch a rheoli arian sy'n ymwneud ag offer meddygol yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r strwythur hwn cyn belled â'r Gweithredwr Sicrhau Ansawdd, ond mae amlygiad y tu hwnt i'r lefel hwn yn aneglur.
- 9 Er bod Polisi Rheoli Offer a Dyfeisiau Meddygol ar waith, mae'r dogfennau gweithdrefnol ategol yn dal i fod ar ffurf drafft ac mae nifer o bolisiau blaenorol yn cael eu defnyddio yn y cyfamser.
- 10 Sgoriodd hunanasesiad diweddaraf y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd 16: Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig (SHS16), yn uchel, ac mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hynny sydd angen eu gwella o ran hyfforddiant. Yn sgil newidiadau strwythurol yn y Bwrdd Iechyd, ni wnaeth aelodau annibynnol graffu ar yr hunanasesiad yn 2015; yn hytrach, adolygwyd yr hunanasesiad a gyflwynwyd gan yr ADoTHS. Cafodd y newidiadau hyn i'r trefniadau wared â'r broses graffu annibynnol a'r cyfle i aelodau annibynnol fod yn rhan uniongyrchol o oruchwyllo offer meddygol. Mae'r Safonau Gwasanaethau Iechyd wedi eu disodli bellach gan y Safonau Iechyd a Gofal, nad yw'n ei gwneud yn ofynnol o Aelod Annibynnol graffu ar hunanasesiad Bwrdd Iechyd. Wrth fynd ymlaen, bydd y broses adolygu yn cael ei chyflawni yn unol â gofynion y Safonau newydd a bydd amser Aelodau Annibynnol yn canolbwyntio yn hytrach ar feysydd risg uwch.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau i reoli risgiau yn ymwneud ag offer meddygol ar lefel weithredol, ond nid yw risgiau strategol yn cael eu huwchgyfeirio'n gyflym bob amser

- 11 Mae cofrestrï risg adrannol, sy'n cynnwys risgiau offer meddygol a digwyddiadau yn ymwneud ag offer, yn darparu gwybodaeth ar gyfer cofrestrï risg lleol. Er hynny, nid oes pwyslais cryf ar offer meddygol o fewn y gofrestr risg corfforaethol. Yn hanesyddol, ni fu cyfathrebu yn y Bwrdd Iechyd bob amser yn gwbl effeithiol, gan achosi oedi mewn rhai risgiau gweithredol allweddol yn cael eu cydnabod ar lefel strategol, megis yr angen i gydgyssylltu cyfnewid y dosbarthwr robotaid fferyllol am un newydd yn rhan o waith adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd, er mwyn osgoi amharu ar wasanaethau. Er y nodwyd y risg hwn gan Fferylliaeth yn 2014 ac fe'i cydnabuwyd gan yr MDOG yn 2015, ni chafodd y dosbarthwr ei gynnwys yn y Rhaglen Cyfalaf Dewisol tan 2016.
- 12 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth y mae'n ei chadw am risgiau er mwyn asesu a blaenoriaethu cynigion ar gyfer cyllid dewisol, ond ar lefel ehangach, nid oes ffynhonnell o'r holl risgiau offer meddygol. Byddai'r wybodaeth hon yn helpu'r Gweithredwr Sicrhau Ansawdd i gael rhagor o wybodaeth am y risgiau offer meddygol allweddol na ellir eu rheoli yn lleol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu cymryd y camau perthnasol.
- 13 Mae hyfforddiant aelodau staff o ran offer meddygol, a graddfa'r risgiau ar gyfer defnyddwyr o ran offer meddygol yn anhysbys o ganlyniad i gofnodion hyfforddiant anghyflawn. Mae defnyddwyr nad ydynt wedi'u hyfforddi i ddefnyddio offer meddygol yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau, a all effeithio ar ofal cleifion. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu polisi hyfforddiant newydd ar gyfer dyfeisiau meddygol sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion. Nod y polisi yw amlygu meysydd problem a chynyddu'r nifer sy'n dilyn hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cofnodion hyfforddi yn debygol o barhau i fod yn broblem oherwydd y cyfyngiadau a adroddwyd ynglŷn â'r system Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae defnydd anghyson lleol o'r ESR a chyfyngiadau'r system sydd wedi eu hamlygu mewn fforymau eraill yn genedlaethol, yn rhwystro cofnodi ac adrodd am ddata hyfforddiant staff.
- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfathrebu rhybuddion a chanllawiau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn dda, ac mae aelodau staff yn cofnodi achosion yn ymwneud ag offer meddygol. Hefyd, mae systemau effeithiol ar waith o fewn strwythur grŵp yr offer meddygol er mwyn nodi tueddiadau posibl o ran digwyddiadau, ac i archwilio a chymryd camau ar gyfer lliniaru pan fo angen. Dyma enghraifft o arfer da a allai gael ei rannu gyda meysydd eraill y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei gyllideb cyfalaf dewisol yn effeithiol i flaenoriaethu offer meddygol newydd ac i ddisodli hen offer, ond ar gyfer eitemau rhatach nid yw'r trefniadau mor glir ac nid oes un rhestr benodol o'r holl eitemau

- 15 Mae prosesau effeithiol a thryloyw ar waith ar gyfer pryniadau cyfalaf offer meddygol. Cyflwynir cynigion ar gyfer cyllid dewisol yn flynyddol ac mae proses glir o flaenoriaethu wedi'i chysylltu â risg clinigol, sy'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud y defnydd gorau o gyllid cyfyngedig. Mae cyflwyniadau yn nodi'r gofynion sydd ar ddod ar gyfer offer newydd ac offer i gymryd lle rhai presennol ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd, sy'n hwyluso cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae trefniadau tebyg ar waith ar gyfer defnyddio cronfeydd elusennol, er bod y cyllid sydd ar gael yn amrywio o un safle i'r llall, gan arwain at annhegwch posibl. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd brosesau effeithiol ar gyfer ymdrin â chynigion brys o ganlyniad i offer yn torri.
- 16 Mae dull llai strategol o weithredu ar gyfer cael eitemau newydd o dan y trothwy cyfalaf o £5,000. Mae rhai eitemau (e.e. dyfeisiau trwytho, diffibrilwyr a gwelyau) yn dod o dan y categori 'fflyd' ac yn cael eu cynnwys yn y broses gyfalaf, ond mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o eitemau lle y gwneir y penderfyniadau caffel ar lefel adrannol ac nid yw'n glir pa un a yw adrannau yn gweithredu dull sy'n seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau. Er bod gan y Bwrdd Iechyd systemau ar waith i reoleiddio caffaeliad dyfeisiau a bod prosesau ar waith i rwystro archebu eitemau ansafonol, mae'n aneglur pa mor effeithiol yw'r prosesau hyn a pha un a yw adrannau yn gallu eu hosgoi, gan arwain at risgiau clinigol posibl.
- 17 Nid oes un rhestr benodol ar gyfer offer meddygol yn y Bwrdd Iechyd. Dim ond eitemau cyfalaf sy'n cael eu cynnwys yng nghofrestr asedau'r Bwrdd Iechyd (h.y. y rhai hynny dros £5,000) ac mae'r sefyllfa yn llai clir ar gyfer eitemau o dan £5,000. Mae'r Adran Beirianeg Electro-Biofeddygol (EBME) yn gweithredu System Reoli Peirianeg Ysbyty (HEMS). Y system hon sy'n darparu'r rhestr fwyaf cyflawn, ond mae rhai eitemau, megis offer radioleg a phatholeg, yn cael eu rheoli y tu allan i drefniadau yr offer meddygol craidd ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn HEMS. Yn ogystal, nid yw HEMS yn cynnwys gwybodaeth lawn ynglŷn â gwerth ariannol yr offer, gan ei gwneud yn anodd cyfrifo costau eitemau newydd yn fanwl gywir. Amcangyfrifodd y Bwrdd Iechyd y bydd y gost o gael offer newydd ar 31 Mawrth 2014 yn lle'r rhai sydd wedi mynd yn rhy hen yn £22.5 miliwn, ond nid yw hyn yn cynnwys offer o dan £5,000. Mae diffyg un ffynhonnell sy'n rhoi gwybodaeth lawn o ran rhestr eiddo yn ei gwneud yn anodd pennu faint y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wario ar offer meddygol a beth yw cyfanswm y costau a'r angen am offer newydd yng nghyd-destun offer sydd wedi mynd yn rhy hen.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer cynnal a chadw offer meddygol, ond gallai ei lyfrgell offer meddygol fod yn fwy effeithiol a chael ei safoni'n well ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd drwy rannu arfer da ledled y safleoedd

- 18 Mae EBME yn defnyddio HEMS i fonitro gwaith cynnal a chadw offer. Mae offer yn cael eu rheoli'n dda, ac er gwaethaf ôl-groniad parhaus o waith cynnal a chadw, mae aelodau staff ysbytai yn nodi lefelau uchel o foddhad â'r gwasanaeth a ddarperir gan adran yr EBME. Mae gan yr adran achrediad ISO 9001 ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw fethiannau yn rhan o'r broses archwilio allanol. Er hyn, gan nad yw'r holl offer yn cael eu cofnodi gan yr HEMS, mae risg i ddiogelwch cleifion os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod os yw'r holl offer o dan £5,000 yn cael eu cynnal a'u cadw a'u graddnodi'n briodol.
- 19 Mae'r gwasanaeth llyfrgell offer, sy'n darparu dyfeisiau meddygol dros dro i wardiau ac adrannau, yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Er bod y gwasanaeth yn cael ei reoli yn wahanol mewn gwahanol safleoedd, mae ystod yr offer yn amrywio rhwng safleoedd ac mae angen safoni.
- 20 Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o safoni offer ledled y safleoedd. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i safoni pypiau trwytho a diffibrilwyr, sy'n dilyn prosiectau blaenorol i safoni pypiau epidwral a gwelyau, ond mae cyfleoedd i safoni a rhesymoli offer ymhellach.

Argymhellion

- 21 Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 1: Argymhellion i'r Bwrdd Iechyd

Rydym yn gwneud pedwar argymhelliad i helpu i wella polisi a gweithdrefnau drwy wneud yn sicr eu bod yn gyd yn gyfredol. I edrych ar angen a manteision posibl stocrestr sengl ar gyfer offer meddygol. I weld a oes manteision ar gyfer un dull i lyfrgelloedd offer yn lle tair llyfrgell. Ac i rannu arferion da a nodwyd gennym ar ddadansoddi risgiau a tueddiadau ehangach yn y Bwrdd Iechyd.

Argymhellion

Polisiau a gweithdrefnau

- A1 Blaenoriaethu cwblhau dogfennau gweithdrefnau wedi'u diweddarau er mwyn ategu'r Polisi Rheoli Dyfeisiau ac Offer Meddygol.

Argymhellion

Rhestr offer meddygol

A2 Archwilio'r angen am restr unigol o offer meddygol, ynghyd â buddion posibl hyn, sy'n tynnu ynghyd pob eitem o ddata allweddol ac sy'n asesu risgiau clinigol.

Llyfrgelloedd offer meddygol

A3 Archwilio buddion safoni'r gwasanaethau llyfrgell offer ledled y tri safle drwy eu cynnwys yn yr un adran reoli.

Rhannu arfer da

A4 Rhannu â'r Gweithredwr Sicrwydd Ansawdd y gwaith cadarnhaol a wneir gan y grwpiau offer meddygol i nodi tueddiadau posibl mewn digwyddiadau. Mae hyn yn enghraifft o arfer da a allai gael ei gyflwyno mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.

Atodiad 1

Ymateb y rheolwyr

Arddangosyn 2: Ymateb y rheolwyr

Mae'r holl argymhellion wedi'u derbyn, ac mae'r rheolaeth yn disgrifio dull gweithredu fesul cam synhwyrol i'w gweithredu. Dylid cwblhau'r holl gamau gweithredu erbyn diwedd 2017. Caiff cwblhau'r argymhelliad pwysicaf, sef, cwblhau diweddariad polisïau a gweithdrefnau mewn trefn risg ac yn llwyr ei wneud erbyn diwedd mis Mehefin 2017. Ymateb i'n gwaith sydd wedi'i strwythuro'n dda ac sy'n ystyriol yw hwn.

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel	Derbyniwyd	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Polisïau a Gweithdrefnau							
A1	Blaenoriaethu cwblhau dogfennau gweithdrefn wedi'u diweddaru i ategu'r Polisi Rheoli Dyfeisiau ac Offer Meddygol.	Dileu'r defnydd o ddogfennau etifeddiaeth a sicrhau bod gan staff fynediad i wybodaeth weithdrefnol gyfoes.	Do	Do	Mae'r Grŵp Goruchwylio Dyfeisiau Meddygol wedi nodi'r gweithdrefnau ategol canlynol fel blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer datblygu yn y sefydliad: Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dewis a Chaffael. Comisiynu.	 31/01/17 31/01/17 31/01/17	Adrian Thomas/ Patrick Hill

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel	Derbyniwyd	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Polisiau a Gweithdrefnau							
A1	Blaenoriaethu cwblhau dogfennau gweithdrefn wedi'u diweddarau i ategu'r Polisi Rheoli Dyfeisiau ac Offer Meddygol.	Dileu'r defnydd o ddogfennau etifeddiaeth a sicrhau bod gan staff fynediad i wybodaeth weithdrefnol gyfoes.	Do	Do	Cynnal a Chadw ac Atgyweirio	31/04/17	Adrian Thomas/ Patrick Hill
					Hyfforddiant i Ddefnyddwyr a Defnydd Arferol	31/04/17	
					Glanhau a Dadheintio	31/04/17	
					Gwaredu Cofnodion a Chyfarwyddiadau	30/06/17	

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel	Derbyniwyd	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Stocrestr Feddygol							
A2	Pennu cwmpas o ran yr angen am un stocrestr unigol o offer meddygol, a manteision posibl hyn, sy'n dwyn ynghyd yr holl eitemau data allweddol ac yn asesu risgiau clinigol.	<p>Gallai un stocrestr o offer alluogi'r Bwrdd Iechyd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> benderfynu faint mae'n ei wario ar offer meddygol darparu darlun llawn o'r anghenion a chostau disodli sydd ar y gweill mewn perthynas ag offer sydd wedi dod i ddiwedd ei oes sy'n werth dros ac dan £5,000; sefydlu faint o wahanol amrywiadau o fath unigol o offer sy'n cael eu cadw gan y Bwrdd Iechyd i helpu i nodi graddfa risgiau posibl a'r lle ar gyfer ad-drefnu; a cael sicrwydd bod prosesau yn eu lle i reoleiddio caffael dyfeisiau yn cael eu dilyn ac yn gweithio'n effeithiol mewn perthynas â phrynu eitemau o dan £5,000. 			<p>Byddwn yn bwrw ymlaen â thrafodaethau am hyn a'r manteision posibl gyda Grŵp Rheoli Offer Meddygol Cymru Gyfan a'r Is-bwyllgor Ffiseg Feddygol a Pheirianwyr Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru.</p> <p>Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wrth ar hyn o bryd yn cysylltu â Chaerdydd a'r Fro ynghylch eu stocrestr unigol.</p>	30/06/17	Adrian Thomas/ Patrick Hill

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (✓)	Derbyniwyd	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Llyfrgelloedd Offer Meddygol							
A3	Trafod y posibilrwydd o safoni'r gwasanaethau llyfrgell offer ar draws y tri safle drwy ddod â hwy o dan yr un adran reoli.	Rhoi lefel gyson o wasanaeth ac amrywiaeth o offer ar draws safleoedd i staff sy'n defnyddio llyfrgelloedd offer.		Do	Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth llyfrgell offer ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn gwneud argymhellion ynghylch darparu gwasanaeth ar y prif safleoedd i'r Grŵp Rheoli Gweithredol.	30/05/17	Adrian Thomas/ Nigel Lee/ Bethan Jones
Rhannu after da							
A4	Rhannu â QSE y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan grwpiau offer meddygol i nodi tueddiadau posibl mewn digwyddiadau. Mae hon yn enghraifft o arfer da y gellid ei hailadrodd mewn mannau eraill yn y Bwrdd Iechyd.	Amlygu wrth QSE arfer da presennol er mwyn iddo gael ei ddefnyddio i wella nodi tueddiadau mewn achosion mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.	Do	Do	Byddwn yn cyflwyno hyn yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.	06/12/16	Adrian Thomas/ Patrick Hill

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru